# Gorlifo ffermydd a thir amaeth

# Gorlifo ffermydd a thir amaeth

**Mae'r daflen hon yn rhoi i chi beth cyngor ymarferol ynghylch yr hyn y gallwch ei wneud i leihau effaith llifogydd ar eich fferm.**

## Wyddoch chi a yw eich fferm tan fygythiad llifogydd?

Gan mai fferm yw, gall eich tir fod mewn perygl o lifogydd hyd yn oed os nad yw eich tŷ. Gallwch ganfod eich perygl o lifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb, cyrsiau dŵr bach a chronfeydd dŵr ar ein map perygl llifogydd.

Gallwch ganfod a yw eich tir tan fygythiad llifogydd trwy fynd at cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/llifogydd neu alw Floodline ar 0345 988 1188.

Os ydych ym mherygl llifogydd, efallai y gallwch ofyn am dderbyn rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim i'ch llinell dir neu'ch ffôn symudol chi. Gallwch gofrestru hyd at bum rhif cyswllt i dderbyn rhybudd, felly gellid rhybuddio'r teulu neu weithwyr yn ystod argyfwng llifogydd. Rhoddir rhybuddion hyd at 2 awr cyn llifogydd, sy'n ddigon o amser i chi wneud pethau elfennol fel symud anifeiliaid neu beiriannau i dir uwch, er mwyn eu diogelu.

## Paratowch eich fferm at lifogydd:

Mae llwyth o bethau mân, syml y gallwch eu gwneud i baratoi'ch fferm at lifogydd, a lleihau effaith llifogydd ar eich fferm.

Y
dych chi wedi ystyried, er enghraifft, creu cynllun llifogydd ar gyfer y fferm? Mae'r cynllun yn ddogfen sy'n cynnwys yr holl wybodaeth bwysig y byddai arnoch ei hangen, a'r hyn a wnaech chi yn ystod llifogydd.

O'i gwblhau, gallech ei rannu â holl weithwyr eich fferm, fel eu bod yn gyfarwydd ag ef. Yna gellid ei gadw'n ddiogel, lle byddai modd cael gafael arno'n hawdd pe bai angen.

## Beth ddylai ffermwr ei gynnwys yn ei gynllun llifogydd:

- I ba gaeau ar dir uwch y gellid symud anifeiliaid.
- Pa stoc / peiriannau / offer y gellid eu symud o'r fferm yn hawdd er mwyn osgoi colled neu ddifrod.
- Pa gemegolion / tanwydd ar y fferm allai lygru dŵr llifogydd, a sut y gellid eu symud i le diogel yn ystod llifogydd
- Sut mae rhoi gwybod i weithwyr bod llifogydd ar ddod, a sut all hwythau eich helpu i baratoi
- Cysylltu â chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y busnes yn mynd ymlaen fel arfer, ac nad ydych chi'n colli enillion.
- Prynu stoc o ddeunyddiau y gellid eu defnyddio yn ystod llifogydd, sef bagiau tywod i atal dŵr rhag mynd i adeiladau, pren er mwyn cau ffenestri a phaletau er mwyn codi stoc ac offer uwch lefel y dŵr.

## Sut allai ffermwr leihau tebygolrwydd llifogydd ar ei fferm:

- Ystyriwch greu pyllau goferu, neu atalwyr gwaddodion.
- Osgowch gyfeirio llifogydd dŵr tuag at ffyrdd, ffosydd neu afonydd.
- Gollyngwch ddŵr toeau i suddbantiau neu suddfannau o gwmpas y fferm, er mwyn arafu'r llifogydd ac ailgyflenwi dŵr daear.
- Llacio pridd er mwyn creu wyneb garw wedi'r cynhaeaf, fel y gall dŵr socian i'r tir yn hytrach na llifo oddi arno.
- Symud anifeiliaid, pan fo'r tir yn wlyb, o gaeau sy'n tueddu i fynd o dan ddŵr.
- Peidio â rhoi gormod o bwysedd awyr yn eich teiars, i osgoi gwasgu'r pridd yn galed.

## Paratoi'ch cartref chi at lifogydd:

- I lawer ohonom, nid bywoliaeth yn unig mo'r fferm, ond cartref, hefyd. Os yw eich fferm chi mewn ardal perygl llifogydd, bydd angen i chi ystyried diogelu'ch cartref yn ogystal â'ch busnes.
- Ydych chi wedi ystyried paratoi pecyn argyfwng llifogydd, hefyd? Byddai'n cynnwys yr holl bethau y byddai arnoch eu hangen pe bai gofyn i chi adael.
- Dylai gynnwys pethau fel copïau o ddogfennau yswiriant; fflachlamp droi; radio; dillad cynnes, diddos; dŵr potel ac unrhyw foddion neu ffisig sydd arnoch ei angen.

## Sut mae diogelu'ch cartref adeg llifogydd:

- Caewch y cyflenwadau nwy, dŵr a thrydan.
- Galwch Floodline (0345 988 1188) am yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer eich ardal chi.
- Symudwch bethau gwerthfawr gennych, a dodrefn y gellir ei symud yn hawdd, i fyny'r grisiau i le diogel.
- Er mwyn atal dŵr rhag dod i'ch cartref, rhoddwch y plygiau yn y sinciau, a phwysau am eu pennau; caewch bibellau cyflenwi dŵr â llieiniau neu gadachau, a datgysylltwch unrhyw offer sy'n defnyddio dŵr (peiriannau golchi, e.e.) rhag i'r dŵr lifo trwyddynt i'ch tŷ.
- Canfyddwch eich cynllun llifogydd, a symudwch eich teulu i fyny'r grisiau i le diogel, lle gallwch ddianc ohono.
- Ceisiwch beidio â chyffwrdd â dŵr llifogydd, rhag ei fod wedi'i lygru.
- Peidiwch â gadael eich cartref na mentro i ddŵr llifogydd onid yw'r gwasanaethau argyfwng yn dweud wrthych. Gall dŵr llifogydd fod yn beryglus iawn, a chuddio peryglon.

## Rhagor o wybodaeth:

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â diogelu'ch fferm chi rhag llifogydd, derbyn y gwasanaeth rhybuddion llifogydd neu gael copi o gynllun llifogydd, cysylltwch â ni:

**F:** 03000 65 3000
**E:** ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk